Cenn@d

IONAWR 29 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 205

# Crefydd a ffydd yn ymgyrch ac urddo Donald Trump yn Arlywydd America



Llun: Kevin McCoy, CC BY-SA 2.0

Dau fis ar ôl iddo ennill yr etholiad, ar 20 Ionawr, urddwyd Donald Trump yn 47eg Arlywydd yr Unol Daleithiau mewn seremoni a gynhaliwyd dan do yn adeilad y Capitol yn Washington, DC. Yn ystod y seremoni cymerodd Trump y llw â'i law dde wedi'i gosod ar ddau Feibl, sef hen Feibl Abraham Lincoln o 1865 a Beibl personol a gyflwynwyd iddo gan ei fam eglwys pan oedd yn blentyn. Adroddodd y llw statudol, gan ychwanegu cymal ar y diwedd a dweud, 'So help me, God'.

Chwaraeodd crefydd ran enfawr yn yr ymgyrch etholiadol, ac roedd ennill cefnogaeth arweinwyr crefyddol dylanwadol yn allweddol yn y ras arlywyddol. Tra mae eglwysi mawr, efengylaidd a dylanwadol yn dal i ffynnu yn y wlad, gall sicrhau cefnogaeth eu harweinwyr wneud gwahaniaeth mawr. Deallodd Donald Trmp hynny i'r dim, a bu'n frwd dros arddel ei ddaliadau Cristnogol. Fe'i magwyd o fewn enwad y Presbyteriaid, ond yn ddiweddar fe ddatganodd yntau a'i wraig, Melania, eu bod wedi torri cysylltiad â'r enwad hwnnw, a'u bod bellach yn cyfrif eu hunain yn Gristnogion anenwadol. Mae ganddo gefnogaeth gadarn llawer o'r enwadau ac eglwysi efengylaidd yn America. Fodd bynnag, mae llawer yn bryderus am ei ddaliadau eithafol sy'n groes i bob egwyddor Gristnogol, ac am y ffordd y mae yntau'n byw ac yn ymddwyn yn ei fywyd bob dydd.

Ar ôl ennill y ras arlywyddol cynhaliwyd oedfa yn ei gartref Mar-a-Lago gyda nifer o arweinwyr efengylaidd yn arwain y cyfarfod. Hefyd, fe drefnodd oedfa ar noswyl yr urddo, gyda'r gweinidog Efengylaidd Travis Johnson yn cyhoeddi neges a drydarwyd gan Trump, 'Mae enw Iesu yn cael ei ddyrchafu yma heno mewn gweddi ac addoliad nerthol. Arglwydd, tyrd â'th adfywiad i America, O Dduw, rydyn ni dy angen di yn America heddiw'. Yn yr un modd cynhaliwyd Brecwast Gweddi Arlywyddol fore'r 20fed, gyda'r efengylydd adnabyddus o Nigeria, Pastor Nathaniel Bassey, yn arwain; roedd Trump am ddiolch iddo am ei gefnogaeth yn sicrhau pledleisiau'r gymuned Affricanaidd yn y wlad.

Cymerodd nifer o arweinwyr crefyddol hefyd ran yr y gwasanaeth urddo ei hun, gan gynnig darlleniadau, gweddïau a geiriau o gyngor ac anogaeth dros yr Arlywydd newydd. Cyflwynwyd gweddïau gan y Cardinal Timothy Dolan o Efrog Newydd a'r Tad Frank Mann, ffrind agos i Trump. Offrymwyd gweddi hefyd gan y gweinidog efengylaidd Franklin Graham, mab y pregethwr enwog Billy Graham a chefnogwr brwd i'r Arlywydd ers amser maith, yn ogystal â Pastor Lorenzo Sewell, arweinydd Eglwys '180' yn Detroit, Michigan. Gwnaeth yntau gryn argraff ar lawer, gyda'i ddull hwyliog a charismatig, gan honni yn ei weddi fod yr Arlywydd wedi'i arbed gan Dduw i waith a phwrpas arbennig. Cafwyd bendith hefyd gan y Rabbi Ari Berman ar ran y gymuned Iddewig.

Yn dilyn yr urddo, cynhaliwyd oedfa arall yng Nghadeirlan Genedlaethol Washington dan arweiniad y Gwir Barch. Mariann Budde, Esgob Presbyteraidd Washington. Yn ei phregeth, anogodd yr Arlywydd i weithredu gan ddangos trugaredd, tosturi a goddefgarwch at y bregus a'r gwan, gan ddweud:

> 'Yn enw ein Duw, gofynnaf i chi drugarhau wrth y bobl sy'n ofnus ar hyn o bryd – mae yna blant hoyw, lesbiaidd a thrawsrywiol sy'n ofni am eu bywydau. Yn yr un modd, mae llawer o fewnfudwyr yn byw yn ein mysg, ac er efallai nad ydyn nhw'n ddinasyddion swyddogol nid yw'r mwyafrif helaeth ohonynt yn droseddwyr. Maent yn talu trethi ac yn gymdogion da. Maent yn aelodau ffyddlon o'n heglwysi, mosgiau a synagogau. Mae angen dangos tosturi a thrugaredd.'

Yn dilyn y gwasanaeth, condemniodd Trump y sylwadau a draddodwyd gan Marianne Budde, gan awgrymu nad oedd yn dda yn ei gwaith fel esgob.

Mae llawer yma i'w drafod, a thestun i sawl seiat. Mae'n debyg y gellid gweld y gweddïau a'r anerchiadau a draddodwyd, o blaid ac yn erbyn Trump, fel datganiadau gwleidyddol, gan wybod y byddai sylwebyddion y byd yn gwerthuso a thrafod pob gair. Ynghanol y sioe fawr a ddarlledwyd dros y byd, yr hyn na chafwyd yn anffodus oedd digon o ymbil gwirioneddol ar i Dduw helpu'r llywodraeth newydd i bwyso arno am bob arweiniad, ac ar i Iesu fod yn y canol. Ar ddechrau cyfnod newydd o lywodraethiant yn America, ynghanol yr holl gymhlethdodau yn y wlad, gweddïwn y gwelwn ôl llaw arweiniad Duw ar y wlad a'i phobl, ac y bydd tegwch, tosturi a thrugaredd yn ganolog i bob dim.

*Aled Davies*

Sul Cyfiawnder Hiliol, 9 Chwefror 2025: Cot o lawer o liwiau
Tudalen 2

Cyrsiau a chyfleon yng Ngholeg y Bala ym mis Chwefror
Tudalen 7

Cofio'r Parchedig Elfyn Richards (1938–2024)
Tudalen 8


# Sul Cyfiawnder Hiliol, 9 Chwefror 2025: Cot o lawer o liwiau

Paratowyd adnoddau Sul Cyfiawnder Hiliol eleni ar gyfer eglwysi Prydain ac Iwerddon gan Grŵp Ysgrifenwyr Sul Cyfiawnder Hiliol a'u cynhyrchu gan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Cynrychiolydd Cymru ar y grŵp oedd y Parchedig Denzil I. John, Caerffili, a diolchwn iddo am ei waith yntau ar y panel hwn. Mae'r holl adnoddau ar gael yn Gymraeg, a gellir eu lawrlwytho yn rhad ac am ddim o wefan CTBI: https://www.cytun.co.uk/sul-cyfiawnder-hiliol-9-chwefror-2025/

Mae eleni yn flwyddyn bwysig i gyfiawnder hiliol yn y gwledydd hyn gan ei bod yn nodi 30 mlynedd ers sefydlu Sul Cyfiawnder Hiliol. Fe'i sefydlwyd gan yr Eglwys Fethodistaidd yn 1995 yn dilyn llofruddiaeth hiliol trasig y bachgen ifanc Du, sef Stephen Lawrence, yn ne-ddwyrain Llundain ym mis Ebrill 1993. Roedd y teulu Lawrence yn mynychu'r Eglwys Fethodistaidd leol yn y rhan honno o'r brifddinas, a chytunodd yr Eglwys Fethodistaidd i gefnogi'r teulu wrth sefydlu ymgyrch i geisio sicrhau cyfiawnder ac er er mwyn dod o hyd i lofruddwyr y bachgen ifanc Stephen. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, cytunodd Comisiwn yr Eglwysi dros Gyfiawnder Hiliol (CCRJ) i sefydlu rhaglen o dan nawdd Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, i drefnu a hybu'r Sul arbennig hwn er mwyn i'r holl eglwysi allu ymgysylltu ag ef. Cawn ddarganfod mwy am yr hanes hwn gan y Parchg David Haslam, cyn-weinidog Methodistaidd a phennaeth y Comisiwn yn ystod y cyfnod hwn, sy'n myfyrio ar y pen-blwydd a'r hyn mae'n ei olygu i gyfiawnder hiliol yn ein gwlad heddiw.

Mae'r thema eleni, â'r teitl 'Cot o lawer o liwiau', yn adlewyrchu'r amrywiaeth cynyddol sy'n bodoli ymysg eglwysi ym Mhrydain ac Iwerddon. Mae'r Hen Destament, neu'r Beibl Hebraeg, a'r Testament Newydd yn gyforiog o gyfeiriadau at amrywiaeth, yn y byd hwn ac yn y Deyrnas i ddod. Dim ond myfyrio ar adnodau sy'n sôn am 'dŷ gweddi i'r holl genhedloedd' (Eseia 56:7), digwyddiadau'r Pentecost (Actau 2) neu'r 'lliaws … o bob cenedl' (Datguddiad 7:9-17) sydd angen i ni ei wneud – i gyd yn cynnwys geiriau sy'n golygu 'pob llwyth a chenedl' – i weld bod amrywiaeth ethnig yn rhan o gynllun dwyfol Duw. Nid oes fawr o amheuaeth nad yw eglwysi Prydain, yn enwedig yn y dinasoedd mwy, yn ficrocosm o'r byd mewn cynulleidfa, sy'n wir yn fendith y mae'n rhaid ei dathlu. Yn yr un modd, mae'r ffaith bod amrywiaeth credinwyr wedi rhoi bywyd ysbrydol sydd mawr ei angen i'n heglwysi yn brawf bod hwn yn fudiad o Dduw y mae'n rhaid i ni ei ganmol a diolch amdano. Yn ein myfyrdodau a'n pregethau, mae aelodau'r Grŵp Ysgrifenwyr ac eraill, sy'n hanu o sawl rhan o'r byd, yn disgrifio eu profiadau o fod yn rhan o'r 'Cot o lawer o liwiau'.

Eto i gyd, er gwaethaf y realiti anhygoel hwn, mae anghydraddoldeb yn dal i fodoli yn yr eglwys ac yn dal i fod yn ffactor sy'n difetha profiadau gormod o bobl o dreftadaeth mwyafrif byd-eang neu gefndiroedd Du a Brown. Mae hyn yn gadael pobl gyda'r teimlad fel petaen nhw ddim yn perthyn i dŷ'r Arglwydd, neu ddim yn cael y cyfle i ddefnyddio eu doniau a roddwyd gan Dduw i hyrwyddo Teyrnas yr Arglwydd. Mae ein pregethau a'n myfyrdodau yn yr adnodd hwn yn mynd i'r afael â phwysigrwydd bod yn gynhwysol a'r angen i bob Cristion ymgymryd â'r gwaith pwysig dros hybu cyfiawnder hiliol. Ceir yn y pecyn adnoddau ddeunyddiau rhagorol sy'n galluogi pob eglwys i addoli, gweddïo a myfyrio ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gorff Crist sy'n wirioneddol deg, yn cael ei yrru gan




gyfiawnder, ac mewn ysbryd cariadus. Ar ben hynny, mae'r dewis o emynau, caneuon addoli a'r darlleniadau o'r Beibl yn ategu'r deunyddiau litwrgaidd, gan sicrhau y gall Cristnogion ac eglwysi ymwneud yn llawn â'r pwnc. Yn yr un modd, darperir rhestr helaeth o ddeunyddiau darllen gan Gristnogion sydd wedi'u lleoli'n bennaf ym Mhrydain ac Iwerddon a fydd yn galluogi darllenwyr i ymgysylltu ymhellach â'u teithiau cyfiawnder hiliol.

Cofiwch hefyd, er bod yr ail ddydd Sul ym mis Chwefror yn Sul Cyfiawnder Hiliol, y gwir yw y dylai pob dydd Sul fod yn Sul Cyfiawnder Hiliol. Mae ein Duw ni yn Dduw cyfiawnder sy'n cymryd diddordeb mewn cyfiawnder yn wastadol ac yn barhaol.

Dyma weddi ar gyfer y Sul, yn seiliedig ar ddelwedd y thema am eleni, sef 'Cot o lawer o liwiau'.

**Gweddïwn**
Dduw'r holl bobl,
Ti yw'r un a ddaeth â ni i fodolaeth,
gan ein gweu a'n clymu gyda'n gilydd
ein ffurfio cyn i ni hyd yn oed gael ein geni.
Rwyt ti'n ein hadnabod ni mor dda, pob un ohonom –
Dy annwyl blant Di, wedi ein creu ar dy ddelw a'th lun.
Duw yr holl genhedloedd,
Rwyt ti'n pwytho ac yn gwnïo'r ddelwedd gymhleth hon ohonot ti –
Fel dilledyn o lawer o liwiau, wedi'i bwytho, ei wnïo a'i hemio;
Pob tôn a lliw wedi ei baentio gyda'th ofal tyner Di, yr Arlunydd,

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Sul Cyfiawnder Hiliol, 9 Chwefror 2025: Cot o lawer o liwiau*

*(parhad o dudalen 2)*

Ein Cynhaliwr a'n Creawdwr – gwisga ni oll yn Dy gariad a'th drugaredd.
Boed i'th freuddwyd di ar gyfer dy holl blant annwyl ddod yn wir;
Bydded i'th obaith am adnewyddiad a chymod ar gyfer yr holl ddaear gael ei wireddu;
Bydded i'th Deyrnas ddod ar y ddaear hon yn yr amser hwn, a'i sefydlu am byth.
Galwn arnat ti, O Dduw,
A hynny ar y Sul Cyfiawnder Hiliol hwn.
Bydded i ti'n ddod â'n gobeithion a'n hofnau ynghyd,
derbyn ein gweddïau a'n mawl,
Ac una nhw, wrth inni nesáu mewn cymundeb â thi ac a'n gilydd,
Er dy ogoniant. Amen

## Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y Brawd Clive Sheridan, Hwlffordd, ar 10 Ionawr 2025, a hynny yn fuan wedi iddo golli ei briod, Terry, a fu farw ar 23 Rhagfyr 2024. Gwasanaethodd Clive fel Llywydd yr Adran ddi-Gymraeg yn 2013–14 a chyfrannodd yn helaeth i fywyd y Gymanfa yn ogystal â gwaith y Panel Diogelu Cydenwadol. Diolchwn am ei gyfraniad gwerthfawr a chyfoethog i waith y Deyrnas a chydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teulu yn eu galar a'u hiraeth.

**Myfyrdod y Parchedig Denzil I. John, sy'n rhan o'r deunydd eleni:**

**TREFN NEWYDD A DDATGUDDIWYD GAN IESU**

'Dewch â ... pob un sydd â'm henw arno,
ac a greais i'm gogoniant,
ac a luniais, ac a wneuthum.' "
Dygwch allan y bobl sy'n ddall, er bod llygaid ganddynt,
y rhai sy'n fyddar, er bod clustiau ganddynt.
Y mae'r holl bobl wedi eu casglu ynghyd,
a'r bobloedd wedi eu cynnull.
Pwy yn eu plith a fynega hyn,
a chyhoeddi i ni y pethau gynt?
Gadewch iddynt alw tystion i brofi'r achos,
a gwrando, a dyfarnu ei fod yn wir.
(Eseia 43:7–9; BCND 2004)

Oherwydd ef yw ein heddwch ni.
(Effesiaid 2:14; BCND 2004)

O fewn yr adran o Eseia lle cawn Ganeuon y Gwas Dioddefus (Eseia 52:13–53:12), mae'r proffwyd yn tynnu ein sylw at ddod â'r holl genhedloedd at ei gilydd. Mae yna lawer o sefydliadau sy'n galw ar y cenhedloedd ac yn ceisio bod mewn cytgord a chydweithrediad â'i gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys mudiadau gwleidyddol, diwylliannol a chrefyddol.



Mae un gymuned o'r fath yn ymgynnull yn Llangollen, pentref bychan, prydferth ar hyd yr A5, yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae'r digwyddiad cerddorol wythnos o hyd yn denu pobl o bob un o'r pum cyfandir, gyda chystadlaethau ar draws ystod eang o ddisgyblaethau cerddorol, tebyg i'r eisteddfodau a gynhelir yng Nghymru yn lleol ac yn genedlaethol. Cychwynnodd yr ŵyl yn 1947, yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, mewn ymdrech i ddod â phobl ynghyd mewn cymdeithas o gariad a pharch at ei gilydd. Ceisiwyd grantiau i helpu corau a dawnswyr tlotach i deithio o Ddwyrain Ewrop a gwledydd Affrica. Mae'r rhai sydd wedi mynychu dros y degawdau wedi dathlu'r lliw a'r digwyddiadau diwylliannol llawen. Mae'r cystadlaethau'n troi'n gyngherddau, mae unawdwyr byd-enwog yn dwyn sylw a sylwedd i'r llwyfan, ac mae'r gwasanaeth crefyddol bob blwyddyn yn dod yn ddathliad o amrywiaeth a chynwysoldeb yr ŵyl.

Roedd yr eglwys gynnar yn dathlu amrywiaeth yr holl genhedloedd a'u diwylliannau a'u hieithoedd unigryw, ond eto bob amser yn hyrwyddo undod yr eglwys yn Iesu Grist. Pan fo Paul yn tanlinellu undod yr eglwys, mae'n datgan 'nad estroniaid a dieithriaid mo'r credinwyr mwyach, ond cyd-ddinasyddion â phobl Dduw a hefyd aelodau o'i deulu' (Effesiaid 2:19).

Sicrhaodd cyfraith Lloegr fod y rhan fawr o ystad person yn cael ei throsglwyddo i'r gwryw hynaf. Gwelodd cyfraith Cymru, ers dyddiau Hywel Dda, yn dda i ymgorffori'r arferiad fod pob plentyn yn derbyn cyfran gyfartal o ystad ei dad ar ôl ei farwolaeth. Mae'r efengyl yn dysgu bod Duw yn ceisio bendithio pawb yn gyfartal – mewn byd sy'n rhannu cyfoeth byd-eang yn anghyfartal a lle mae'r cryfaf a'r mwyaf dylanwadol yn honni cymaint ag y gallant, er anfantais i'r tlawd a'r di-rym. Mae gwleidyddion yn ei chael hi'n gyfleus 'arallu' y rhai sy'n ymddangos yn wahanol, neu'n creu anawsterau i'r rhai y mae'r gwleidyddion yn eu cynrychioli. Mae'r gair 'tramor' yn dod yn derm diraddiol, ac mae ffoaduriaid yn cael eu hystyried yn annerbyniol. Bydd y lobi boblogaidd yn honni bod yr 'eraill' yn achosi problemau cymdeithasol ac anawsterau economaidd, gan gyfoethogi byd rhanedig yn ein hoes ni.

Cyhoeddodd Eseia obaith mewn byd rhanedig. Roedd ei bobl mewn gwlad estron a heb urddas na rhyddid. Eto deallodd y byddai ei Dduw yn dwyn y bobl ynghyd mewn trefn newydd. Roedd Paul yn deall bod cenhedloedd i fod yn drefn newydd yn Iesu a bod cyfiawnder, parch a heddwch i fod yn sail i obaith a chymod. Mae Sul Cyfiawnder Hiliol yn galw ar bob Cristion i barchu ei gilydd mewn byd amrywiol, i weithio tuag at deulu byd-eang o ddynoliaeth ac i gael eu hadeiladu i mewn i deml sanctaidd Duw.

Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

## Swydd ar gael: Uwch Swyddog Cyllid: Ymunwch â'n Cenhadaeth

A ydych yn Swyddog Cyllid profiadol sy'n dymuno gwneud gwahaniaeth fel rhan o fudiad Cristnogol deinamig? Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn eich gwahodd i wneud cais am gyfle cyffrous ar gyfer Uwch Swyddog Cyllid mewn cyfnod trawsnewidiol hollbwysig.

Yn y swyddogaeth hon, byddwch yn rhan annatod o dîm ymroddedig sy'n darparu cefnogaeth ac arweiniad hanfodol i'n Cymanfaoedd a'n Heglwysi ar draws Cymru. Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys dyletswyddau cadw cyfrifon ond, yn ogystal, byddwch yn chwarae rôl allweddol yn llunio strategaeth gyllid gynhwysol yn unol â'n hamcanion Cristnogol.

**Lleoliad**: Caerfyrddin ond gyda hyblygrwydd i weithio gartref. Disgwylir presenoldeb cyson mewn cyfarfodydd yng Nghaerfyrddin ac mewn lleoliadau eraill.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn gwbl ymroddedig i genhadaeth Undeb Bedyddwyr Cymru ac yn medru'r Gymraeg a'r Saesneg.

Os ydych yn barod i rannu eich arbenigedd gyda mudiad Cristnogol a chynorthwyo i ddatblygu ein gweledigaeth ariannol, hoffwn eich annog i gyflwyno cais. Ymunwch â ni yn ein hymrwymiad i wasanaethu cymunedau ar draws Cymru.

Ymgeisiwch nawr a byddwch yn rhan o'n taith drawsnewidiol!

**Cyflog: Tua** £40,000–£42,000 i'w drafod ac yn gymesur â chymwysterau a phrofiad.

**Oriau**: 35 yr wythnos

Croesewir ceisiadau rhannu swydd

**Dyddiad Cau**: Dydd Llun, 10 Chwefror 2025

**Dyddiad Cyfweld**: Dydd Mawrth, 25 Chwefror 2025

Am wybodaeth bellach cysyllter â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Judith Morris, ar 0345 222 1514 neu judith@ubc.cymru




S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 2 Chwefror, am 7:30yh –**
**Gardd Fotaneg Cymru**
Bydd Nia Roberts yn ymweld â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne, sy'n dathlu chwarter canrif eleni. Gyda pherfformiadau gan Gôr Canna a Rhian Roberts

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 2 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Gwynfryn

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 2 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa ar Ŵyl Fair y Canhwyllau dan ofal Rosie Dymond, Clynnog Fawr

# Brecwast Gweddi a Mawl

Mae ambell arferiad yn werth ei barhau a dyna wnaeth cylch Mawl a Gweddi Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy, sef dod at ei gilydd i gael Brecwast Bwyty yn Nhal-y-cafn yn ystod mis Ionawr. Daeth 11 ohonom ynghyd, sef y nifer perffaith i dîm pêl-droed. Fel un o'r rhai hynaf, Trefor yw ein rheolwr, ac fel yr ieuengaf, Owain yw'r *trainer*, a phan fydd angen, Helen Wyn Jones yw'r 'super sub'!

Petai un arall wedi ymuno, byddai yna ddeuddeg, a hynny'n naturiol yn ein hatgoffa am y deuddeg disgybl a'r rheolwr mwyaf nerthol ac ysbrydoledig erioed – yr Arglwydd Iesu Grist! Gan gofio mai pysgotwyr oeddynt, efallai nad cael bacwn ac wy ayyb y byddem, ond pysgod a sglods yr ichthws a'r chipsws!

Gwelais y geiriau yma ar wal mewn bwyty un tro: 'A meal without wine is called breakfast'. Er cymaint yr anogaeth am win gyda phob pryd, fe fwynhawyd ein brecwast hebddo.

Weithiau, ym mis Rhagfyr y cwestiwn a gawn ydi: 'Ydych chi'n barod am y Nadolig?' Ond ar ddiwrnod olaf y flwyddyn y cwestiwn a gefais oedd: 'Ydych chi'n barod ar gyfer y flwyddyn newydd?' Gyfeillion annwyl, parod neu beidio, does gan neb ddewis: pan ddaw'r amser rydym ni i gyd yn gorfod mynd hefo'n gilydd. Fedrai neb ddweud: 'Na, dwi ddim am ddod, rwyf am aros yn yr hen flwyddyn!'



Yn y llun, o'r chwith: Gerwyn Roberts, R. Glyn Jones, Iorwerth P. Jones, Dafydd R. Roberts, Carys Roberts, Eric Greene, Haf Greene, Miriam Lewis, Trefor Lewis a Helen Wyn Jones. Roedd Brian Wright ac Alan Spencer yn methu bod yn bresennol. Llun gan Owain Davies

Beth sydd ei angen arnom ar gyfer 2025? Llawer o bethau, mae'n siŵr. Un o'r pethau y medrwn weddïo amdano yw ffydd. Fel y dywedodd yr Apostol Paul wrthym: 'Mewn gair y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad.'

Roedd un ar ddeg ohonom
Yn bwyta llond ein bol,
Bu sgwrsio, cnoi a thrafod –
Bwytawyd heb ddim lol!

Cyfarfod yn naturiol
Ac nid ar Zoom mewn sgwâr,
Mae hynny yn rhwystredig –
Cael dim ond mynd 'so far'.

Ond diolch am y cynllun
Fel medrwn ddod ynghyd,
Bod yma gyda'n gilydd
Yn hapus iawn ein byd!

*Iorwerth P. Jones*
*Rhuthun*

## Diaconiaid newydd ym Methel, Mynachlog-ddu


Bu'n ddydd o lawen chwedl yn ein hanes fel eglwys ym Methel, Mynachlog-ddu, sir Benfro, wrth inni neilltuo pedair o'n ffyddloniaid i fod yn ddiaconiaid mewn oedfa gymun bore Sul, 12 Ionawr 2025. Yn dilyn pleidlais gudd ddiwedd Tachwedd 2024 etholwyd pedair o wragedd ar gyfrif eu gwasanaeth arbennig, mewn sawl maes, yn hyrwyddo gwaith a thystiolaeth yr eglwys. Fe'u neilltuwyd yn ddiaconiaid yn dilyn pregeth siars gan y gweinidog, y Parchedig Eirian Wyn Lewis.

Mae Rhian, Ann, Maisie a Llinos wedi cyfrannu'n helaeth i fywyd yr eglwys ym Methel gan roi o'u gorau ar hyd y blynyddoedd, a dymunwn yn dda iddynt wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb ychwanegol o fod yn rhan o dîm gweithgar yr eglwys.



# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 4: Siomedigaethau di-rif**

**Llyfr y Pregethwr 1:12 –2:26**

Wedi iddo sôn am oferedd bywyd, mae'r Pregethwr yn cyflwyno'i hun ac yna rhydd ddisgrifiad llawn o'i orchestion a'i brofiadau.

**Brenin Jerwsalem**

Yn adnod 1:12 dywed, "Roeddwn i, yr Athro, yn frenin ar wlad Israel yn Jerwsalem." (beibl.net) Nid yw'n enwi ei hun ond y mae'n nodi eto mai ef oedd brenin Israel. Tybiwyd yn draddodiadol mai'r brenin Solomon ydoedd. Ond yna fe ymhelaetha trwy gyfeirio at ei feddiannau a'i lwyddiannau. (Ceir disgrifiad eithaf manwl o olud Solomon a'i fywyd bras, ynghyd â chyfeiriad at ei ddysg a'i ddoethineb, yn Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd.) Y mae'n amlwg yn ŵr cyfoethog, addysgedig, ond eto nid yw hyn yn ei fodloni:

Pe cawn y ddaear gron,
A'i holl bleserau hi,
Mae heddwch Duw o dan fy mron
Yn ganmil gwell i mi.

Mae'r Pregethwr yn ceisio darganfod beth o unrhyw werth sydd gan y byd i'w gynnig i un mor ddoeth a goludog. Mae i adran gyntaf yr hunangofiant ddwy ran, y naill a'r llall yn diweddu â dihareb neu ddywediad poblogaidd (1:12–15, 16–18). Dywed y Pregethwr iddo benderfynu ceisio deall y byd y mae'n byw ynddo trwy ddefnyddio doethineb i fyfyrio ar bob dim 'sy'n digwydd dan y nef'. Ond wrth edrych yn ôl, daw'n amlwg iddo mai rhwystredig iawn fu pob ymgais i wneud synnwyr o fywyd: 'gorchwyl diflas' (1:13) fu'r holl chwilio gan mai arwain at flinder a syrffed a wnaeth ei ymdrechion.

Daw i'r casgliad na all newid y drefn; mae'n gwadu un o brif egwyddorion y traddodiad proffwydol, sef mai ewyllys Duw yw bod anghenion pawb yn cael eu diwallu. Mae'n ymwybodol iawn o ddrygioni'r byd. Ond mae'n ymateb iddo mewn dull tra gwahanol i'r proffwydi. Mae'n ymylu ar roi'r ffidil yn y to, cystal â dweud, "Mae'n debyg y bydd Duw yn barnu'r drwgweithredwyr ryw ddiwrnod; ond yn y cyfamser ni ellir gwneud dim i wella'r sefyllfa. Felly ofer yw cwyno."

**Oferedd bywyd bras**

Fel paratoad ar gyfer menter mor uchelgeisiol ag 'astudio a chwilio ... y cyfan sy'n digwydd dan y nef' (1:13), dywed yr awdur iddo dreulio amser maith yn eistedd wrth draed yr athrawon mwyaf dysgedig er mwyn profi 'llawer o ddoethineb a gwybodaeth' (1:16). Mae'n brolio ei hun, ond cafodd ei siomi gan na lwyddodd doethineb a gwybodaeth hyd yn oed i ddiwallu ei chwilfrydedd. Roedd wedi gobeithio'u defnyddio i ddatrys dirgelwch bywyd. Ond gan na chafodd unrhyw gymorth ganddynt, ni wêl fantais i'r doeth a'r dysgedig (1:17–18).

Er hynny, mae'n parhau i chwilio am atebion, y tro hwn trwy droi ei sylw at bleser, er mwyn gweld a oes i hwnnw unrhyw werth parhaol. Y ddedfryd yw nad yw 'pleser yn dda i ddim' (2:1). Yn dilyn, cawn ddisgrifiad manwl o'r hyn a wnaeth wrth chwilio amdano. Mae'n dechrau drwy yfed gwin, ac yna cawn restr faith o'r gweithgareddau, y meddiannau a'r profiadau a fyddai'n rhan o fywyd unrhyw lys brenhinol (2:1–11). Dywed iddo gael pleser o godi tai godidog iddo'i hun, plannu gwinllannoedd, creu llynnoedd a chynllunio gerddi. Roedd ganddo weision i ofalu am ei stoc enfawr o wartheg a defaid; cantorion i'w ddifyrru; a mwy o ordderchwragedd na dyddiau yn y flwyddyn. Yn ei bortread o fywyd gwag y brenin, fe welwn ninnau hefyd yr un nodweddion mewn rhai arweinyddion heddiw a'u pwyslais ar olud a bydolrwydd.

**Diwallu gwanc**

Mae'r Pregethwr yn crynhoi'r cwbl drwy ddweud iddo ddiwallu pob gwanc a manteisio ar bob peth a roddai bleser iddo, gan ddal gafael mewn doethineb (2:9). Er nad ydyw'n ddim nes at ddirnad cwrs y byd, cafodd foddhad mawr o'i lafur; a'r boddhad, nid yr elw, oedd ei dâl am yr holl waith (2:10). Yn ei farn ef, ni fyddai ceisio dal gafael ar y ffordd hon o fyw yn arwain i unman.

Wrth ystyried cymaint fu'r llafur er mwyn cael mwynhad mewn bywyd, mae'n ateb y cwestiwn a ofynnodd yn 1:3: 'Pa elw sydd i neb yn ei holl lafur ...?' Daw i'r un casgliad ag o'r blaen: 'nad oedd y cyfan ond gwagedd ac ymlid gwynt, heb unrhyw elw dan yr haul' (2:11). Er gwaethaf ei gyflawniadau a'r pleser a gafodd ohonynt, ni wêl ddim a fyddai'n cyfrif fel coron ar ei ymdrechion. Serch hynny, nid yw'n gwbl amlwg pam mae'n dweud fod ei holl lafur yn diflannu mewn pwff o fwg; rhaid mynd ymlaen i'r adran nesaf i ddarganfod hynny.

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Beth mae'r Pregethwr yn ei olygu wrth ddweud, "Rôn i'n mwynhau'r gwaith caled, a dyna oedd fy ngwobr i am fy ymdrech" (2:10). Wyt ti wedi profi hyn?
2. Ym mha ffordd y mae tebygrwydd rhwng y disgrifiad o chwenychu pleser, sydd ym mhennod 2, a'n cyfnod ni? Ai peth da neu ddrwg ydy hyn?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Cyrsiau a chyfleon yng Ngholeg y Bala ym mis Chwefror

**ADUNIAD Souled Out**
**7–9 Chwefror**
i bobl ifanc 15+ a myfyrwyr
Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Souled Out.
https://souledoutcymru.net/aduniad/




**CWRS IEUENCTID: 21–3/02/25 (Blynyddoedd Uwchradd 7–10)**
Penwythnos ar ddechrau hanner tymor Chwefror i ieuenctid o Flynyddoedd Uwchradd 7–10. Bydd yn benwythnos llawn gemau, crefft, chwaraeon, nofio, *inflatables*, cerddoriaeth, ymlacio gyda ffrindiau yn y *games room*. Ac fel bob amser sesiynau bywiog yn edrych ar y ffydd Gristnogol a sut mae'n berthnasol i ni heddiw. Mi fedrwch archebu lle i'ch plentyn heddiw fan hyn.

**CHWALFA CHWEFROR: 26–7/02/25 (plant 8–11 oed)**
Dros y dau ddiwrnod bydd gemau, nofio, crefft, canu, chwaraeon, ymlacio yn y *games room* yn chwarae gemau cyfrifiadur, pŵl, hoci awyr a phêl-fasged. Ac fel bob amser byddwn yn edrych ar straeon o'r Beibl sy'n dangos i'r plant faint mae Duw yn eu caru. Gallwch archebu lle i'ch plentyn heddiw fan hyn.




Os nad yw'n bosibl i chi archebu ar-lein neu os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, plis cysylltwch â ni ar: colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565 ac fe wnawn ni bostio copi o'r ffurflen gofrestru atoch chi.

Ni ddylai talu am gwrs fod yn rhwystr i unrhyw un ddod atom i'r Bala. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch arweinydd lleol neu ag Angharad yng Ngholeg y Bala.

## Blwyddyn Gap Coleg y Bala '25–'26



**Beth ydy Blwyddyn Gap?**

Mae'r Flwyddyn Gap yn gwrs ymarferol mewn meithrin disgyblion ac yn para blwyddyn fel arfer (Medi–Awst). Mae wedi ei leoli yng Ngholeg y Bala, Canolfan Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Eleni rydyn ni'n agored i geisiadau am y flwyddyn gyfan neu am ychydig fisoedd, gan ddibynnu ar sefyllfa'r unigolyn. Am sgwrs anffurfiol, mae croeso i chi ffonio Siân ar 07748843946.

**Amcanion**
Amcanion y Flwyddyn Gap yw:

- annog datblygiad personol ac ysbrydol
- ymdrechu tuag at fod â chymeriad cynyddol Grist-debyg
- cynorthwyo pob myfyriwr i adnabod ei ddoniau a'i botensial
- datblygu sgiliau arwain, cyfathrebu ac adeiladu tîm effeithiol
- cynorthwyo a galluogi pob myfyriwr i ddirnad pa fath o gyfraniad y gall ei wneud i'r Eglwys.

**Cyfrifoldebau**
Mae'r myfyrwyr yn cael cyfleon i brofi a bod yn rhan o'r gwahanol weithgareddau sy'n ymwneud â gwaith Coleg y Bala. Mae hyn yn cynnwys:

- paratoi a chyflwyno Cristnogaeth i blant ac ieuenctid mewn ffordd berthnasol a chyfoes ar gyrsiau penwythnos, haf a chanol wythnos
- mynychu cyfarfodydd tîm: cymryd rhan yng ngwasanaeth dyddiol y ganolfan ac arwain yn achlysurol



- cynorthwyo gyda gwaith gweinyddol y ganolfan fel bo'r angen.

Mae cyfleon i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau plant ac ieuenctid tu allan i Goleg y Bala hefyd – rhai sy'n cael eu cynnal gan rai o weithwyr eraill Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae hyn yn cynnwys paratoi a chymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:

- clybiau plant ac ieuenctid
- grwpiau rhanbarthol Souled Out
- gwasanaethau mewn ysgolion
- cenhadaeth leol
- ysgolion Sul
- gwasanaethau boreol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
- undebau Cristnogol.

Caiff y myfyriwr gyfarfodydd rheolaidd gydag aelod parhaol o'r staff er mwyn archwilio'r dyddiadur a threfnu rhaglen waith addas.

**Profiad o weithio mewn meysydd eraill**
Yn ystod y flwyddyn, caiff y myfyriwr gyfle i weithio gydag arweinwyr neu weithwyr eglwysig mewn ardaloedd eraill. Gan ddibynnu ar y lleoliad, caiff y myfyriwr brofiadau amrywiol o weithio gyda phlant ac ieuenctid, ysgolion, oedolion a theuluoedd, yn ogystal â chyfle i ddatblygu dealltwriaeth o rai agweddau ar waith bugeiliol ac arweinyddiaeth.

**Mentora**
Bydd pob myfyriwr yn derbyn mentora unigol yn ystod y Flwyddyn Gap. Amcan y broses hon yw cefnogi duwioldeb a chymeriad Cristnogol pob myfyriwr.

**Byw**
Fe fydd y myfyrwyr gap yn byw i fewn yn y Coleg ac yn derbyn lwfans wythnosol tuag at eu costau byw.

**Diddordeb?**
Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn fyfyriwr Blwyddyn Gap, cysylltwch â Choleg y Bala am wybodaeth bellach neu lawrlwythwch y ffurflen gais. Dyddiad cau blwyddyn gap 2025–26 yw diwrnod olaf mis Chwefror.

# Cofio'r Parchedig Elfyn Richards (1938–2024)

Mae'n anodd meddwl am lecyn mwy dymunol i fyw a gweithio ynddo fo na Cherrigydrudion, Cefn Brith a Rhydlydan yn Uwchaled. Ond dyma lle cychwynnodd Elfyn ar ei weinidogaeth ym 1961, gan briodi â ffrind gorau ei fywyd, yr annwyl Gwenda, yn ystod ei arhosiad yno.

Yn dilyn cyfnod o bedair blynedd yn ei ail ofalaeth yn Llandyrnog a Gellifor yn Nyffryn Clwyd, lle y ganed Clwyd ym 1965, ac wedi dwy flynedd o hyfforddiant ym Mangor, fe apwyntiwyd Elfyn yn athro ymarfer corff ac addysg grefyddol yn Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug. Byr fu ei arhosiad yno – cwta ddwy flynedd – ond byddai'n treulio'r ugain mlynedd nesaf yn dysgu yn Ysgol Maes Garmon, yr Wyddgrug, gan gymryd cyfrifoldeb hefyd am gynulleidfa gref Capel Bethesda, wedi i'r Parchedig J. Eirian Davies golli ei briod, Jennie, a hynny o dan amgylchiadau trasig. Roedd hyn i gyd yn dipyn o gamp, ond fe gyflawnodd Elfyn waith ardderchog yno. Wrth geisio crynhoi 'nheimladau heddiw a rhoi teyrnged at ei gilydd i un oedd yn feistr ar y grefft, daw dau air i flaen fy meddwl, sef enw ac elw.

Gŵr yn meddu ar enw ac, er mwyn ei Arglwydd ac er budd i'w bobl, yn dwyn elw – dyna oedd y Parchedig Elfyn Richards.

Yn gyntaf, roedd i'r trysor o ddyn yma enw, ac enw da at hynny.

Mae rhai enwau'n annatod glwm wrth y fan lle y maged yr unigolyn, ac mae hynny'n berffaith wir yn hanes Elfyn. Fedrai neb amau'r cysylltiad yn fa'ma, achos un o fois y Ponciau oedd Elfyn Richards, a'r glo a'r coliars yn ei waed. Fe'i ganwyd yn Rhiwabon ar 1 Hydref 1938, yn fab i David a Sarah Ann Richards ac yn frawd mawr i'r diweddar Gareth. Mynychodd Ysgol Gynradd y Ponciau ac yna Ysgol Ramadeg Rhiwabon. Yn ddwy ar bymtheg oed, aeth yn fyfyriwr i Goleg Diwinyddol y Bala gan deithio yno ar y trên, a phwy, meddech chi, oedd y person cyntaf i'w gyfarch yn y stesion? Neb llai na'r un fyddai'n dod yn dad yng nghyfraith iddo fo! Mae'r gweddill, medden nhw, yn hanes.

Beth bynnag arall, mi fydd enw Elfyn yn gysylltiedig yn y fro hon â safon. Mi fydd ei enw'n gyfystyr â sensitifrwydd. Ac mi fydd ei enw'n crisialu sicrwydd ffydd ar ei ran o ac o'n rhan ninnau. Gydol ei weinidogaeth mi fyddai'n traethu wrth ei bobl am enw uwch o hyd, sef 'yr enw mwyaf mawr / erioed a glywyd sôn', chwedl Pantycelyn. Canmol ei Waredwr, nid tynnu sylw ato fo'i hun – dyna oedd ei nod, ac fe lwyddodd yn rhyfeddol. Fyddai o ddim am na ffws na sylw, ond roedd ei enw'n mynd o'i flaen i bob rhan o ogledd Cymru a thros y ffin i'n heglwysi Cymraeg yn y dinasoedd, gan fod pawb yn ei barchu ac yn meddwl y byd ohono fo.

Byddwn yn cysylltu enw Elfyn â'r caredigrwydd a'r eangfrydedd nad oedd am feirniadu; â'r graslonrwydd hwnnw oedd yn deillio o'i stôr o amynedd yn gwrando ar eraill; â'r cariad oedd ganddo tuag at bobl yn gyffredinol a chyda'i ddull o ddelio â threialon pobl, a hynny mewn ffordd ddoeth ac adeiladol.

Wedyn, yn ail, mi fyddwn ni'n cysylltu Elfyn â'r syniad o elw: nid hunan elw, ond elw yn enw pobl eraill, a hwnnw wedi'i wreiddio yn ei gred yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Pwy bynnag oedden nhw a beth bynnag oedd eu hanes, mi roedd pawb ar eu hennill yng nghwmni hwn; mi roedd pob un ar ei elw o fod yn nabod y cyfaill mwyn yma. Cymerwch, i ddechrau, dimau pêl-droed y Coleg Normal a Hirael ym Mangor, tref Dinbych a'r Bala (a'r dyn ffit ag oedd o, mae hanes am Elfyn yn rhedeg o gylch Llyn Tegid yn y boreau ac yn mynd heibio Gwenda ar ei ffordd i'r ysgol!). Mi chwaraeodd i Lanrug ac i Gerrigydrudion ac, wrth gwrs, i'r Rhos. Ac roedden nhw i gyd yn well eu byd am fod Elfyn Richards yn eu plith nhw, yn ennill cwpanau ar eu rhan nhw. Wedi gorffen gyda'r bêl gron yn ddeugain oed, yr un fuo hi wedyn gyda sboncen a thennis, ac roedd Clwb Tennis Brymbo yn agos at ei galon. Dyma ddyn oedd byth yn segur, ac un a arhosodd nes ei fod o'n 84 cyn rhoi'r gorau i chwarae.

Gyda'i ffydd a'i ffwtbol yn gorwedd yn agos iawn at ei gilydd, fe hoffwn i awgrymu trydedd elfen yn y darlun yn hanes y gwas hwn i Dduw, sef hwyl. I Elfyn, nid mater o dicio bocsys ac ufuddhau i reolau oedd crefydd (er bod elfen o hynny'n bod). Yn hytrach, dathlai ei gred mewn Duw byw a ddewisodd ei fynegi ei hun yn Dduw cariad mewn baban bach ym Methlehem oesoedd pell yn ôl. Mi fydd llawer ohonoch yn cofio'r pantomeim blynyddol y byddai Elfyn yn ei gynnal yma ym Methel ac yn dwyn i gof y bywiogrwydd a'r brwdfrydedd oedd yn nodweddu ei weinidogaeth – gweinidogaeth oedd, un adeg, yn cynnwys Capel Saesneg Hill Street, y Rhos. Nid y ffordd gonfensiynol oedd ei ffordd o – mi roedd wrth ei fodd yn arbrofi a herio ffiniau. Ond, am ei ddylanwad ar genedlaethau o bobl, yn hen ac ifanc – ymhle mae dyn yn dechrau? Roedd yn fythol gefnogol i bawb – beth bynnag oedd eu hanes nhw, ac o ble bynnag roedden nhw'n dod.

Doedd dim dwywaith nad oedd o'n ŵr ac yn dad gofalgar, fel y gall Sharon, ei ferch yng nghyfraith dystio; a'r un yw hi gyda'i wyrion, Dewi ac Alun, a Taid yn ymfalchïo ganwaith drosodd yn eu cyraeddiadau, yn enwedig ym myd y bêl. Dyma un gefnogodd eu tîm rygbi nhw, ac un hefyd ffeindiodd ei fod ar ben ei ddigon pan aned ei orwyr, Gethin yn 2015, ac yn neilltuol felly ac yntau'n disgleirio'n barod fel pêl-droediwr.

A siarad yn bersonol, a waeth i ba dîm roedd rhywun yn perthyn, boed ym maes chwaraeon neu yn y dyrnaid o enwadau sy'n ein gwahanu ni fel capeli ac eglwysi, roedd un peth yn sicr – mi roedd y Parchedig Elfyn Richards ar eich ochr chi, ac am hynny, mae'n rhaid rhoi diolch. Colled enfawr yw colli Elfyn, a fydd bywyd byth yr un fath eto. Ond, meddai ei deulu annwyl (a dwi'n dyfynnu): 'Fe ymfalchïwn yn ei garedigrwydd, y cariad a'r gofal arbennig a gawsom ganddo fel teulu. Diolch iti, Elfyn, am fod yn ŵr, tad a thaid mor arbennig.'

*Robert Parry*
*Lerpwl*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru